**Senedd Cymru | Y Gwasanaeth Ymchwil**
**Welsh Parliament | Research Service**

# Premiymau'r dreth gyngor ar ail gartrefi

Y Pwyllgor Deisebau | 17 Tachwedd 2020
Petitions Committee | 17 November 2020

**Reference:** RS20/14284-2

**Petition Number:** P-05-1009

**Petition title:** Gorchmynnwch Gynghorau Cymru i gymhwyso gordal o 100 y cant o leiaf i'r Dreth Gyngor ar ail gartrefi.

**Text of petition:** Mae ail gartrefi a chartrefi tymhorol yn dinistrio ein cymunedau gwledig, wrth brisio pobl leol allan o'r farchnad dai. Yn y cyfamser mae llawer o berchnogion ail gartref yn osgoi talu unrhyw Dreth Gyngor trwy hawlio rhyddhad i fusnesau bach. Dylai Llywodraeth Cymru fod yn mynd ati i annog hyn i beidio a chymhwyso cosbau o 10% o werth ail gartref am osgoi bwriadol.

# 1. Premiymau'r dreth gyngor ar ail gartrefi

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru **Anheddau'r Dreth Gyngor: Ebrill 2020 i Mawrth 2021** ym mis Ionawr 2020. Mae Tabl 6 ar dudalen 9 yn dangos bod wyth awdurdod yn bwriadu codi premiwm ail gartref yn y flwyddyn ariannol gyfredol:

- Ynys Môn
- Gwynedd
- Conwy
- Sir Ddinbych
- Sir y Fflint
- Powys
- Ceredigion
- Sir Benfro

Yn ogystal, mae **Cyngor Abertawe** wedi nodi y bydd yn codi premiwm y dreth gyngor ar ail gartrefi o fis Ebrill 2021.

Gwneir pob ymdrech i sicrhau bod y wybodaeth a gynhwysir yn y briff hwn yn gywir adeg ei gyhoeddi. Dylai darllenwyr fod yn ymwybodol nad yw'r papurau briffio hyn yn cael eu diweddaru o reidrwydd na'u diwygio fel arall i adlewyrchu newidiadau dilynol.